

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 26 Mawrth 2003
Amser: 9.15am tan 12.15pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn Bresennol:

Aelodau:

Richard Edwards, Cadeirydd	Preseli Sir Benfro
Eleanor Burnham	Gogledd Cymru
David Davies	Mynwy
Janet Davies	Gorllewin De Cymru
Sue Essex, Gweinidog	Gogledd Caerdydd
Brian Hancock	Islwyn
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Tom Middlehurst	Alun a Glannau Dyfrdwy
Karen Sinclair	De Clwyd
Phil Williams	Dwyrain De Cymru

Swyddogion:

Martin Evans	Cyfarwyddwr yr Is-adran Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd
June Milligan (eitem 3)	Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad
Trish Fretten (eitem 3)	Yr Is-adran Cefn Gwlad
Charles Coombes (eitem 4)	Uned Datblygu Cynaliadwy

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Siwan Davies

Clerc y Pwyllgor

Vaughan Watkin

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau, y sawl a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod olaf y Pwyllgor.

Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd -

EPT-05-03 (p 1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad, a oedd yn adolygu hynt y gwaith ar draws ei phortffolio ers ei phenodi i'r Cabinet ym Mawrth 2000.

2.2 Gan fod Datblygu Cynaliadwy'n cael ei ystyried o dan eitem 4, trafodwyd y meysydd polisi eraill o fewn ei phortffolio. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar y materion canlynol.

Diogelu'r Amgylchedd

- Bod yn Agored - yr angen i roi gwybod i'r cyhoedd am y materion amgylcheddol diweddaraf, ac i asiantaethau perthnasol ddysgu gwersi yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor i safle tirlenwi Nantygwyddon;
- Gwastraff - yr angen i wneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn newid arferion, os am gyrraedd targedau'r Strategaeth Wastraff. Angen gwell data er mwyn sicrhau bod gwaith monitro a gwerthuso'n cael ei wneud yn effeithiol;
- Ansawdd Aer - croesawu gwelliannau, ond angen ansawdd da cyson ar draws Cymru;
- Llifogydd - angen datblygu cynlluniau lleol i amddiffyn rhag llifogydd;
- Hyd a lled y portffolio - y gwrthdaro posibl wrth integreiddio'r elfennau Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a geir yn y portffolio.

Cefn gwlad, yr Arfordir a Chadwraeth

- Mynediad - cefnogaeth i'r bwriad o barhau â'r gwaith ehangu mynediad at gefn gwlad a'r angen i wella mynediad ar gyfer pobl anabl;

- Cynllun Gofodol Cymru - siom na chyhoeddwyd y Cynllun erbyn y dyddiad targed.
- Parciau Cenedlaethol - cefnogi'r gwaith o wella atebolrwydd democrataidd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- Safleoedd cadwraeth dynodedig - cefnogi dulliau ymarferol o warchod rhywogaethau a chynefinoedd.

Cynllunio

- Ffermydd gwynt - y gwrthdaro rhwng cyfrifoldebau gwahanol adrannau yn y broses o benderfynu ar leoliadau ffermydd gwynt. Mae ceisiadau am ddatblygiadau dros 50MW o dan Ddeddf Trydan 1989 neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael eu hystyried gan yr Adran Fasnach a Diwydiant, ar ôl i'r Cynulliad fynegi barn. Mae ceisiadau ar gyfer datblygiadau llai na 50MW o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992, neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn cael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol, neu os oes cais yn cael ei alw i mewn bydd yn cael ei benderfynu gan Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio'r Cynulliad.
- Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio - cadarnhau na fydd cyfarfod o'r pwyllgor penderfyniadau cynllunio yn cael ei gynnal tan ar ôl yr etholiad, ac nad oes unrhyw achosion i'w trafod ar frys;
- Cynlluniau Datblygu Unedol - pryder nad oes gan rai awdurdodau lleol gynlluniau yn barod. 2000 oedd y targed ar gyfer cytuno ar Gynlluniau Datblygu Unedol. Angen i'r Cynulliad ystyried ffyrdd i rwystro awdurdodau rhag gwyro oddi wrth eu cynlluniau lleol.

Cludiant

- Gwaith trawsffiniol - cefnogi parhad y gwaith o gynllunio trafndiaeth trawsffiniol gydag awdurdodau lleol yn Lloegr, yn arbennig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus - croesawu'r cynllun tocynnau rhatach a'i rôl o ran cynyddu proffil trafndiaeth gyhoeddus, a chefnogi cynlluniau peilot a phrosiectau trafndiaeth cymunedol;
- Cynlluniau Awdurdodau Lleol - galw am fwy o fuddsoddi gan awdurdodau lleol i gynnal a chadw ffyrdd lleol, ac i'w gwneud hi'n gliriach pa Grantiau Trafnidiaeth sydd wedi'u dyrannu ar gyfer ffyrdd a phrosiectau trafndiaeth gyhoeddus;
- Rheilffyrdd - galw ar y Gweinidog i ddylanwadu ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol o ran gosod rhyddfrait rheilffordd Wales & Borders.

Treftadaeth

- Rhestru - awgrym y gallai pwyllgor yn y dyfodol ystyried ffyrdd o wella'r broses bresennol;
- Potensial Economaidd - angen manteisio ar botensial economaidd treftadaeth adeiledig Cymru drwy ddefnyddio adeiladau.

Camau i'w cymryd

2.3 Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ganlynol a oedd yn deillio o gwestiynau'r Aelodau:

- Hynt y gwaith o ymestyn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gynnwys Glyn Dyfrdwy;
- Meini prawf Cronfa Cynaliadwyedd (Agregau) Cymru;
- Manylion ynghylch trwyddedu safleoedd tirlenwi sydd â chais cynllunio eto i'w trafod;
- Data ar effeithiolrwydd y camerâu diogelwch ffyrdd, y rhai sy'n gudd a'r rhai amlwg;
- Trefniadau ariannu ar gyfer Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru.

Eitem 3: Adolygiad o Weithredu'n Lleol ar Fioamrywiaeth: Ymateb y Gweinidog - EPT-05-03 (p 2)

3.1 Noddodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i argymhellion y Pwyllgor a gafodd ei gyflwyno yn y cyfarfod llawn ar 26 Chwefror. Ceir crynodeb ohono yn y papur. Gofynnwyd iddi egluro'r pwyntiau canlynol:

- Argymhelliad 2 - roedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol eisoes yn cael eu cydnabod fel canllawiau cynllunio atodol, ond byddant yn awr hefyd yn helpu i lunio Strategaethau Cymunedol;
- Argymhellion 8 a 9 - byddai'r arian a oedd ar gael i Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn helpu i rannu gwybodaeth am y rhestr cynefinoedd a rhywogaethau yn A74. Cynhelir trafodaethau cyn hir gydag ACCAC ar sut i fynd i'r afael â'r diffyg sgiliau ym maes cadwraeth.

Eitem 4: Effeithiolrwydd Prif Ffrydio Datblygu Cynaliadwy - EPT-05-03 (p3)

4.1 Mae'n ofynnol o dan A121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru fod y Cynulliad yn ei dymor newydd yn adolygu pa mor effeithiol fu Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad ac yn adolygu a ddylai'r Cynllun gael ei ddiwygio neu'i ailddrafftio. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor ar effeithiolrwydd prif ffrydio datblygu cynaliadwy, i helpu gyda'r asesiad fydd ar y gweill.

4.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr angen i:

- Integreiddio - ymrwymiad i Ddatblygu Cynaliadwy ar draws portffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac i integreiddio polisïau;
- Gweithredu - canolbwyntio ar gyflawni i fodloni disgwyliadau ledled Cymru ac ar lefel Ryngwladol, ac i wella data er mwyn gallu monitro a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau;
- Dylanwadu ar Whitehall - hyrwyddo agenda Datblygu Cynaliadwy gyda Llywodraeth y DU i sicrhau fod polisïau nad ydynt wedi'u datganoli a phenderfyniadau cyllideb Trysorlys Ei Mawrhydi yn gynaliadwy.

Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2003 -EPT-04-03 (mins)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2003. Gan mai dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor, bydd cofnodion EPT-05-03 yn cael eu cytuno y tu allan i'r Pwyllgor.

5.2 Dywedodd Richard Edwards ei bod wedi bod yn ffrainc Cadeirio'r Pwyllgor ers etholiad 2000. Diolchodd Aelodau y Cadeirydd am y modd yr oedd wedi cadeirio'r Pwyllgor.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Mawrth 2003